
Canllawiau ar gyfer Ymgeisio am Gyfraniad Ariannol gan Gyngor Tref Criccieth

1 AMCAN Y GRANT

Mae Cyngor Tref Criccieth yn barod i ystyried rhoi cymorth ariannol i fudiadau, clybiau, cyrff a sefydliadau addas er mwyn hybu neu sicrhau gweithgareddau sy'n cynnig gwasanaeth neu yn cyfoethogi bywydau trigolion Criccieth neu ymwelwyr i'r dref.

2 PWY GAIFF YMGEISIO?

2.1 Ystyrir rhoi grantiau i:

- gymdeithasau gwirfoddol
 - Clybiau a Chymdeithasau eraill
 - gyrff cyhoeddus
 - fudiadau eraill priodol
- (gall y cyrff uchod fod yn elusennau)

2.2 Fel egwyddor gyffredinol, bydd cyfraniadau ariannol yn eu dyrannu er mwyn sicrhau, ac ehangu, y gwasanaethau a'r profiadau a gynigir o fewn ffiniau'r ardal a wasanaethir gan Gyngor Tref Criccieth.

2.2 Gellir ystyried gweithgaredd, sefydliad neu fudiad sydd wedi ei leoli y tu allan i dref Criccieth ond sy'n darparu gwasanaethau neu brofiadau i drigolion yr ardal a wasanaethir gan y Cyngor. Mewn sefyllfa o'r fath, bydd unrhyw gyfraniad gan Gyngor Tref Criccieth yn adlewyrchu effaith y gwasanaeth hynny ar drigolion y dref.

2.4 Ystyrir fod 2 categori o ymgeisydd ar gyfer nawdd:

- Sefydliadau sydd, oherwydd cyfyngiadau ariannol, methu cynnig y gwasanaethau a'r profiadau a fu gynt i drigolion y dref
- Sefydliadau a chyrff sydd yn edrych am gyfraniad at gostau digwyddiad unigol neu gyfres o ddigwyddiadau na ellid eu cynnal fel arall.

3 PWY NA CHAIFF YMGEISIO?

3.1 Ni ystyrir ceisiadau oddi wrth:

- gyrff a chwmnïau masnachol (sydd yn anelu i ddosbarthu elw i'w haelodau)
- unigolion
- sefydliadau/cyrff sydd yn bwriadu gwneud elw o'r digwyddiad at achos da

4 SUT I YMGEISIO?

4.1 Gofynnir i bob ymgeisydd am grant gwblhau'r ffurflen arbennig sydd i'w chael gan Clerc y Cyngor (manyllion isod) a bydd rhaid ei dychwelyd gyda chopi o'r fantolen ariannol wedi'i harchwilio, adroddiad cyllidol blynyddol, neu ddogfen gyffelyb i'r Clerc.

4.2 Bydd y Cyngor Tref, neu un o'r Is-bwyllgorau, yn ystyried y ceisiadau am gyfraniadau ariannol dwywaith y flwyddyn, fel arfer yn eu cyfarfodydd mis Ionawr a mis Gorffennaf. Y

dyddiad cau ar gyfer derbyn y ceisiadau fydd (4 wythnos cyn y cyfarfodydd). Hysbysir yr ymgeiswyr o'r penderfyniadau mor fuan ag sy'n bosibl wedi hynny.

5 MARCHNATA

- 5.1 Rhaid cadw at egwyddorion cyfle cyfartal a'r iaith Gymraeg (gan gynnwys cynhyrchu deunydd cyhoeddusrwydd dwyieithog)
- 5.2 Yn gyffredinol, disgwylir i'r ymgeisydd gydnabod cyfraniad y Cyngor Tref mewn unrhyw gyhoeddusrwydd ar gyfer digwyddiad(au) a ariennir neu a gefnogir gan grant.

6 FFACTORAU ERAILL

- 6.1 Rhaid i bob ymgeisydd am grant gytuno i gymryd y ffactorau isod i ystyriaeth wrth lunio gweithgareddau gyda nawdd a ddyrennir gan y Cyngor:
 - darpariaeth ar gyfer pobl gydag anabled
 - darpariaeth ar gyfer hybu neu feithrin plant a phobl ifanc yn y maes dan sylw
- 6.2 Ystyrir bod darpariaeth gwasanaethau a phrofiadau yn y ddwy iaith yn hollbwysig a disgwylir i unrhyw weithgaredd ar ariennir gan gyllid y Cyngor Tref i adlewyrchu hyn.

7 MONITRO

- 7.1 Bydd yn ofynnol i gyrff neu sefydliadau sydd yn derbyn cyfraniad ariannol wneud trefniadau addas, os gofynnir amdanynt, i alluogi aelodau'r Cyngor arolygu, monitro neu wirio gwariant y cyfraniad ariannol neu unrhyw amodau sydd yn gysylltiedig ag ef.
- 7.2 Bydd gofyn i bob ymgeisydd llwyddiannus ddychwelyd ffurflen fonitro syml wedi'r digwyddiad neu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, yn adrodd ar y defnydd o'r cyllid. Fe all methiant i ddychwelyd ffurflen fonitro effeithio'n negyddol ar unrhyw gais am gyfraniad ariannol yn y dyfodol.

8 DEDDFWRIAETH GDPR

Defnyddir y wybodaeth ar y ffurflen hon at ddibenion dyfarnu grantiau yn unig. Cedwir unrhyw wybodaeth bersonol yn gyfrinachol.